

PWYLLGOR:	PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	6 MAWRTH 2017
TEITL:	ADOLYGIAD O'R DATGANIAD POLISI HAPCHWARAE
DIBEN:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO

1. PWRPAS

- 1.1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno Datganiad Polisi Hapchwarae drafft i gael ei ystyried a'i gymeradwyo cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â Deddf Hapchwarae 2005. (Atodiad A)

2. CEFNDIR A CHYFLWYNIAD

- 2.1 At ddibenion Deddf Hapchwarae 2005 (y Ddeddf), mae Cyngor Gwynedd yn cael ei gyfrif yn Awdurdod Trwyddedu ac mae'n gyfrifol am roi a rheoleiddio trwyddedau eiddo, gan gynnwys eiddo sy'n darparu bingo, swyddfeydd betio, arcedau diddanu ac ati.
Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am gofrestru loteriau bychain ac am roi hawlenni peiriannau hapchwarae i dafarndai.
- 2.2 Nid yw pob math o hapchwarae yn cael ei reoleiddio gan Awdurdodau Lleol; er enghraifft, mae'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) a Chomisiwn y Loteri Genedlaethol yn parhau i reoleiddio betio gwasgar yn ogystal â'r Loteri Genedlaethol.
- 2.3 Y Comisiwn Hapchwarae sy'n gyfrifol am roi trwyddedau gweithredu a phersonol i hapchwarae masnachol (megis casinos a neuaddau bingo) ac i bobl sy'n gweithio yn y diwydiant.
- 2.4 Mae tri amcan trwyddedu i'r Ddeddf, a'r rhain sy'n ffurfio sylfaen swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu. Y rhain yw -
- Atal Hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell Trosedd ac Anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
 - Sicrhau bod Hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd Deg ac Agored
 - Amddiffyn plant a phobl fregus eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan hapchwarae.
- 2.5 Mae Adran 349 y Ddeddf yn gofyn i Awdurdodau Trwyddedu, bob tair blynedd, baratoi a chyhoeddi datganiad o egwyddorion Trwyddedu y maen nhw'n dymuno eu rhoi ar waith wrth ymgymryd â'u swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf.
- 2.6 Nid yw'r Datganiad Polisi Hapchwarae cyfredol wedi bod yn destun

gwelliannau arwyddocaol yn y gorffennol. Wrth bennu ei Bolisi, rhaid i'r Awdurdod roi sylw i'r Canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae o dan adran 25 y Ddeddf.

- 2.7 Mae'r datganiad polisi drafft wedi cael ei adolygu a'i wella yn unol â pumed cyhoeddiad Canllaw'r Comisiwn Hapchwarae i Awdurdodau Lleol a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2015.
- 2.8 Yn ei Ganllaw diweddaraf, mae'r Comisiwn wedi cyflwyno darpariaethau newydd sy'n gofyn i weithredwyr hapchwarae asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu sy'n codi yn sgil darparu cyfleusterau hapchwarae ym mhob un o'u heiddo, a chael polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli i liniaru'r risgiau hynny. Bwriad y newid hwn i bolisi cenedlaethol yw sefydlu dull gweithredu sy'n dryloyw ac wedi'i ategu gan dystiolaeth er mwyn ystyried a rhoi mesurau ar waith i ymdrin â'r risgiau sy'n gysylltiedig â hapchwarae. Wrth wneud yr asesiadau risg yma, dylai deiliaid trwydded ystyried Datganiad Polisi Hapchwarae'r Awdurdod Trwyddedu.
- 2.9 Mae'r Canllaw hefyd yn annog Awdurdodau Trwyddedu i ddatblygu Proffil Ardal Lleol sy'n amlygu nodweddion allweddol y dylai gweithredwyr eu hystyried.
- 2.10 Paratowyd y Polisi drafft mewn ymgynghoriad â Grŵp Trwyddedu Gogledd Cymru a'i nod yw cael cysondeb mewn ymdriniaeth ledled y rhanbarth

3. **GWEITHDREFN MABWYSIADU**

- 3.1 Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda'r sawl a ganlyn ar y Datganiad Polisi Hapchwarae drafft os y'i cymeradwyir gan y Pwyllgor hwn, yn unol ag a349 y Ddeddf -
 - Prif Swyddog yr Heddlu
 - Un neu ragor o bobl y mae'r Awdurdod yn barnu eu bod yn cynrychioli buddion pobl sy'n rhedeg busnesau hapchwarae yn ardal yr Awdurdod.
 - Un neu ragor o bobl y mae'r Awdurdod yn barnu eu bod yn cynrychioli buddion pobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan yr Awdurdod wrth iddo fynd i'r afael â'i swyddogaeth yn unol â Deddf Hapchwarae 2005.
- 3.2 Bydd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn parhau am 12 wythnos a bydd rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu roi sylw i'r ymatebion a dderbynnir yn ystod y broses ymgynghori; a bydd cais yn cael ei wneud i'r Pwyllgor hwn ystyried unrhyw newidiadau posib sy'n deillio o'r broses ymgynghori
- 3.3 Unwaith bydd y Pwyllgor Trwyddedu'n cytuno ar ddrafft terfynol o'r Datganiad Polisi Hapchwarae

mae Adran 154 y Ddeddf yn datgan bod rhaid i'r polisi gael ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn.

4. **ARGYMHELLIAD**

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y Datganiad Polisi Hapchwarae drafft yn unol â Deddf Hapchwarae 2005 gan ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.